

6

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed MEHEFIN 2021

PRESENNOL:

Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 18ed Mai 2021 YN GWIR.

I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng E D Owen, J Evans, W R Parry.

Gofynwyd gan rhai o'r Cynghorwyr i gofnodi y rhai oedd ddim yn ymateb.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2021/105. Cais llawn am adeiladu Stablau newydd ar dir ger:-

Cefn Trefor, Trefor.

Lle mae'r fynedfa? Nid oes on mynedfa troed giat bach yma wedi ei rhoi dros nos yn ddistaw.

Ni chafwyd cais cynllunio, mae gormod o hyn yn digwydd. Nid ydyw yn bosib cael giat fwy yma, nid oes lle. Mae polyn trydan yma a'r lle yn beryglus.

Yr Adran Cynllunio wedi cael ei hysbysu gan y Clerc.

Ymateb gan y Cyngor Sir fod yr ymgeiswyr yn bwriadu ei addasu er mwyn mynedfa fwy i gerbydau. Nid oes unrhyw hanes cynllunio ar gyfer mynedfa yn y lleoliad hwn. Angen mwy o wybodaeth. Trosglwyddo ein pryderon am y fynedfa i'r Awdurdod Prifffyrdd.

2. FPL/2020/234. Cais llawn i godi warws cynyrchu bwyd, estyniad i'r adeilad presennol er mwyn creu ardal gyrchu, codi tanc man trin carthion (ETP), tanc cydbwysu cysulltiedig a strwythurau (rhanol ol-weithredol mewn perthynas a sylfeini) creu pyllau gwahanu, codi adeilad i gynnwys unedau daf, addasu pwyntiau mynediad presennol ynghyd a newidiadau i'r parcio presennol, dad-fabwysiadu'r briffordd sydd eisioes wedi'i mabwysiadu gyda thirlunio a gwaith cysylltiedig yn:-

8, Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd.

Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng E Williams, eilo Cyng J E Lewis.

PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2021//67. Cais llawn a'r gyfer codi sied storfa ar gyfer defnydd B2 (Diwydiannol Cyffredinol) 13 Iard Diwydiannol Mona, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.
4. HHP/2021/102. Cais llawn ar gyfer codi balconi tu cefn i:-
6 Cae'r Delyn, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.
5. DAG/2021/10. Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir:-
Pen yr Orsedd, Trefor.
Penderfynwyd fod y cynigiad uchod angen caniatad blaenorol gan awdurdod cynllunio lleol

dan dosbarth A o rhan 6 o erthygl 2 y gorchymyn cynllunio gwlad a thref (Gweithdrefn ddatblygu gyfreithiol) 1995 am rheswm(au) canlynol:-
Materion mewn perthynas a'r lleoliad a dyluniad.
Cyng R M Roberts a Cyng R R Roberts ddim yn hapus a'r penderfyniad.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. Swyddog Polisi. Rhian Wyn Owen.
Gwobr Fawreddog i Ganolfan Addysg y Bont (Er Gwybodaeth)
Gwobr Lleoliad Cyfarthrebu Gyfeillgar Elkian.
Mae'r Ysgol arbennig yn Llangefni yn un o'r cyntaf yng Nghymru i gael yr achrediad ar ol i Staff ddilyn hyfforddiant cyfarthrebu a datblygiad iaith uwch dros gyfnod o ddwy flynedd.
Y Cyngor yn dymuno llongyfarchiadau mawr iddynt.
7. Cynorthwy-ydd Cyfreithiol. Siwan Jones.
Gwahardd Traffig Trwodd dros dro (Lon Llechcynfarwy i Trefor 2021)
Gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio cerbydau argyfwng rhag teithio mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd lon Llecynfarwy - Llanerchymedd i Trefor.
Gorchymyn ar gyfer gwaith polio BT, 22ain Mehefin 2021 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod na fydd fwy na 1 wythnos. Ar hyn o bryd disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar 22ain Mehefin 2021.
Derbyn. Dim sylw.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Virginia Crosbie. AS dros Ynys Mon.
Darpariaeth Band Eang ar Ynys Mon - Cais am wybodaeth.
Gweithio gyda tim dan arweiniad Prifysgol Bangor sy'n edrych ar ddarpariaeth band eang ledled Ynys Mon a sut i gael cyllid i wneud gwelliannau sylweddol yn lleol.
Unrhyw wybodaeth y gallwn ei rhannu. ebost. virginia.crosbie.mp@parliament.uk ffon 01407 644645. Diolch am y wybodaeth.
9. Ty Gobaith. Diolch am ei rhodd.

RHODDION

10. Dim.

PLWYFOL.

11. Cynghorwyr yn gofyn am am mantolen arian William Bold.
Cyng J E Lewis yn dweud nad oedd dim gweithgareddau wedi ei gwneud yn flwyddyn diwethaf oherwydd y Covid. Derbyn yr eglurhad.

MATERION ARIANNOL:

12. Cyfrif Rhedegol £15,807.54.

TALIADAU:

13. Clerc £250.00. (Cyflog) Gweinyddu (3 mis) £131.81. Treth Incwm (1) £187.50.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.